**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

---

# Costau gweithredu deddfwriaeth 2026-27

---

**Tachwedd 2025**

# Tabl Cynnwys


Tabl Cryno - Costau Gweithredu Deddfwriaeth a Ddaeth yn Gyfraith - 2026-27...... 3
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ........ 6
Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ........ 6
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ........ 6
Addysg ........ 7
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ........ 7
Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ........ 7
Tai a Llywodraeth Leol ........ 7
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ........ 7
Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ........ 8
Newid Hinsawdd ........ 8
Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ........ 8
Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ........ 9
Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025 ........ 9
Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ........ 9
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ........ 10
Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025 ........ 10
Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ........ 10

## Tabl Cryno - Costau Gweithredu Deddfwriaeth a Ddaeth yn Gyfraith - 2026-27

*[Cliciwch ar deitl pob Deddf am wybodaeth gefndirol]*

| Teitl y Ddeddf | Pa Linell BEL sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | Amcan-gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer 2026-27 (£) | Y swm a neilltuir yn y Gyllideb ar gyfer 2026-27 (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | Cymorth i Deuluoedd a Phlant (1085) | Mawrth 2022 i Fawrth 2027 | 493,000 | 848,572 |
| Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 | Gwella Iechyd a Gweithio'n Iach (0231) | Gorffennaf 2017 am gyfnod amhenodol | 20,000 | 20,000 |
| Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (0920) | 2025 i 2034-35 | 23.03m | 29.1m |
| | Y Sector Gofal (700) | | £1.1m | - |
| **Addysg** | | | | |
| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 | Cwricwlwm ac Asesu (5162) Datblygu a Chefnogi Athrawon (4880) LAEG Diwygio Addysg (4501) | Ebrill 2021 i Fedi 2026 | 9,062,000 | 30,585,000 |
| Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 | Polisi a Gweithredu Addysg Drydyddol (4775) | Medi 2022 i Ragfyr 2026 | 0 | 170,000 |

| Teitl y Ddeddf | Pa Linell BEL sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | Amcan-gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer 2026-27 (£) | Y swm a neilltuir yn y Gyllideb ar gyfer 2026-27 (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Tai a Llywodraeth Leol** | | | | |
| Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 | Asiantaeth y Swyddfa Brisio 1500 | Medi 2024- Ebrill 2029 | 6.9m | 6.9m |
| Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 | Etholiadau 1463 | 10 mlynedd (2024-25 i 2033-34) | 1.8m | 2.5m |
| | Nawdd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru 1440 | | 546,100 | 0 |
| **Newid Hinsawdd** | | | | |
| Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 | Diogelu'r Amgylchedd 2817 | Chwefror 2024 i Fawrth 2033 | 1,587,400 | 2,100,000 |
| | Diogelu'r Amgylchedd 2817 (Gosod targedau a monitro ac asesu) | Chwefror 2024 i Fawrth 2035 | 6,404,000 – 8,654,000 | 300,000 |
| Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 | Diwygio'r Senedd (MEG CCRA ) | Mehefin 2024 i Fai 2026 | 336,800 | 362,210 |
| | BEL Nawdd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (MEG LGHP) | Mehefin 2024 i Ragfyr 2028 | 38,300* | - |
| | Costau Cyfalaf Llety (MEG CSA) | Mehefin 2024 i Fai 2026 | 272,600* | - |
| | BEL Polisi Etholiadau (MEG LGHP) | Mehefin 2024 i Fai 2026 | 60,000* | - |
| Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas | Gwaddol Mwyngloddio a Diogelwch | Tachwedd 2023 i Fawrth 2027 | 5,099,605 | 5,099,605 |

| Teitl y Ddeddf | Pa Linell BEL sy'n ariannu'r costau? | Cyfnod gweithredu | Amcan-gostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ar gyfer 2026-27 (£) | Y swm a neilltuir yn y Gyllideb ar gyfer 2026-27 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddir (Cymru) 2025 | Cronfeydd Dŵr (BEL 2232) | | | |
| Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 | Bydd Llinellau BEL 2787 BPSa a 2833 RIS yn cael eu cyfuno i greu BEL Cymorth Amaethyddiaeth. | 2026 i 2029 | 313,300,000 | 366,600,000 |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | | | | |
| Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025 | Grwpiau MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu a'r Economi, Ynni a Chynllunio - WRA 7090* | Medi 2025 i 2027 (Cyfnod gweithredu cychwynnol) | £4.3M - £5.5M | £6.3m |
| Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 | MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Costau staff (6720) | Awst 2025 i Fawrth 2035 | 445,400 | 445,400 |
| | MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: BEL y Gymraeg (6020) | Awst 2025 i Fawrth 2035 | 641,000 | 505,000 |

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Daeth y Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022. Mae'n helpu i amddiffyn plant a'u hawliau drwy wahardd y defnydd o gosb gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol, a oedd ar gael yn flaenorol i rieni neu'r rhai a oedd yn gweithredu in loco parentis fel amddiffyniad dros ymosod ar blentyn neu ei guro. Effaith fwriadedig y Ddeddf, ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Mae'r gwahaniaethau rhwng y gwariant a amcangyfrifir fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) (£493,000) a'r hyn y bwriadwn ei wario (£848,572) i'w priodoli yn bennaf i'r ffaith bod cost flynyddol y cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn fwy nag amcangyfrifon yr RIA.

### Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch rheoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru. Mae Rhan 1, pennod 1 o Ddeddf 2025 yn cynnwys darpariaethau i atal a chyfyngu ar leoliadau yn y dyfodol gyda chartrefi plant a darparwyr gwasanaethau maethu er-elw. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i alluogi taliadau uniongyrchol i dderbynwyr Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Mae'r gwahaniaeth rhwng ffigur yr RIA a'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026–27 mewn perthynas â dileu elw i'w briodoli i nifer o ffactorau. Yn bennaf, mae'n adlewyrchu ansicrwydd wrth ddarogan costau pontio sy'n gysylltiedig â dileu elw yn narpariaeth plant sy'n derbyn gofal. Roedd yr RIA yn modelu sawl senario yn seiliedig ar ymddygiad darparwyr, gan gynnwys addasiadau yn sgil chwyddiant a phremiymau pontio. Mewn cyferbyniad, mae'r gyllideb ddrafft yn nodi llinell sylfaen wastad, hyd nes y bydd yr amcan-gostau wedi'u mireinio ymhellach drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac awdurdodau lleol.

Mae'r gwahaniaeth yn cynnwys costau a nodwyd ers i'r RIA gael ei lunio, megis cyllid ar gyfer Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gydlynu ar ran awdurdodau lleol a'u helpu, cyllid i gefnogi darparwyr er-elw i ailsefydlu fel darparwyr nid-er-elw, a chyllid i Maethu Cymru i gydlynu dull cenedlaethol o sicrhau digonolrwydd gofalwyr maeth.

Mae'r £29m a ddyrennir ar gyfer 2026-27 yn cynnwys cefnogaeth i agenda Dileu Elw ac agenda ehangach Diwygio Radical, i leihau niferoedd plant sy'n derbyn gofal. Mae'r ddau faes, sy'n ategu ei gilydd, wedi'u cyfuno o fewn un grant ers 2025-26.

# Addysg

### Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i helpu i roi’r Cwricwlwm i Gymru ar waith fel rhan o raglen ehangach i ddiwygio addysg yng Nghymru.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i ddysgwyr Blwyddyn 11 ysgolion uwchradd am y flwyddyn olaf o fis Medi 2026, mae wedi mynd yn anodd nodi'r union gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i Ddeddf 2021. Mae'r cyllid i gefnogi'r cwricwlwm a chamau eraill i wella ysgolion yn cael ei reoli'n holistaidd bellach, wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei ymgorffori i arferion bob dydd, gan gynnwys cymorth ar gyfer blaenoriaethau fel llythrennedd a rhifedd. Rydym yn cynnal y cyllid uniongyrchol ar lefelau 2025-26 yn 2026-27, er bod yr RIA yn amcangyfrif gostyngiad mewn cyllid. Mae'r gyllideb, felly, yn cynnwys £30.6m sy'n amcangyfrif bras o'r costau ac yn adlewyrchu'r pwyslais yr ydym yn parhau i'w roi ar gynnal y cyllid i ysgolion.

### Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sef y corff rheoleiddio annibynnol sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Bydd addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, prentisiaethau a chweched dosbarth. Mae Medr, y corff hyd braich newydd sy'n gyfrifol am gyllido a goruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil, wedi bod yn weithredol o fis Awst 2024.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Diwygiwyd y cynlluniau gweithredu ar ôl i'r RIA gael ei gyhoeddi. Ni ddaeth Medr, y Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn gwbl weithredol tan Awst 2024, yn hytrach nag Ebrill 2024. Mae yna rai costau gweithredu bach o hyd wrth i'r Ddeddf barhau i ddod i rym, ac wrth i is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gael ei gwneud. Bwriedir i hyn barhau drwy gydol 2026, ac mae'r costau yn adlewyrchu'r adnoddau cyfreithiol ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni'r gwaith deddfwriaethol hwn.

# Tai a Llywodraeth Leol

### Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024

Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 yn cyflwyno diwygiadau cynhwysfawr i foderneiddio systemau ardrethi annomestig a threth gyngor Cymru. Mae'n cynyddu pa mor aml y caiff eiddo annomestig eu hailbrisio, o bob pum mlynedd i bob tair, mae'n cynyddu'r hyblygrwydd o ran rhyddhad ac eithriadau, ac mae'n cryfhau'r rheolau ynghylch rhyddhad elusennol a hysbysiadau cwblhau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau newydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu

gwybodaeth, ac mae'n mynd i'r afael ag arferion osgoi taliadau yn artiffisial. O ran y dreth gyngor, mae'n caniatáu newidiadau i'r strwythur bandio, yn rhoi pŵer i Weinidogion reoleiddio darpariaethau gostyngiadau a diystyru, ac yn ei gwneud yn ofynnol creu un cynllun cenedlaethol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hefyd yn sefydlu cylch ailbrisio pum mlynedd o fis Ebrill 2028, ac yn diweddaru'r gofynion cyfathrebu i gynnwys cyhoeddi ar-lein.

### Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

Mae Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 yn cyflwyno diwygiadau enfawr i foderneiddio prosesau etholiadol a gwella atebolrwydd democrataidd yng Nghymru. Mae'n sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i oruchwylio etholiadau datganoledig ac yn ei gwneud yn bosibl cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig. Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo amrywiaeth mewn cynrychiolaeth wleidyddol, yn ei gwneud yn ofynnol creu llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr, ac yn diweddaru rheolau cyllid ymgyrchoedd. Mae hefyd yn diwygio'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol—a ailenwyd yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru—gan ehangu ei gylch gwaith i gynnwys adolygiadau etholiadol a thaliadau ailsefydlu cynghorwyr. Mae mesurau ychwanegol yn rhoi eglurder ynghylch rolau drwy anghymhwyso rhywun rhag cael ei ethol i ddau gorff, ac maent yn anelu at gryfhau uniondeb a chynhwysiant sefydliadau democrataidd Cymru.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Nid oedd rhai costau, megis y rhai ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl (£300k) a chynlluniau amrywiaeth ehangach (£200k) yn hysbys pan ddatblygwyd y Bil, ond datblygwyd amcangyfrifon o'r costau hyn ers hynny. Hefyd, mae costau sy'n disgyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi'u hymgorffori yng nghyllideb gyffredinol y Comisiwn.

## Newid Hinsawdd

### Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol, ac mae'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol; rheoli ansawdd aer lleol; rheoli mwg; parthau aer glân/parthau allyriadau isel a rhedeg cerbydau pan fyddant yn segur. Gosododd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer, ac i gyhoeddi strategaeth seinwedd genedlaethol.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Yn unol â'r ymrwymiadau a wnaed yn y Ddeddf, mae cyfanswm o £1.85m o refeniw a £250k o gyfalaf wedi'i glustnodi ar gyfer camau i gefnogi newid ymddygiadol o ran ansawdd aer, cyfathrebu a gweithgarwch cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r Gronfa Gymorth Rheoli Ansawdd Aer Lleol, cymorth ar gyfer gweithgareddau yr ymdrinnir â hwy yn ein Cynllun Cyflawni Codi Ymwybyddiaeth a datblygu gwaith sy'n ymwneud â llosgi tanwydd solet domestig a gwrthsegura.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ynghylch cyllid ar gyfer monitro ac asesu ansawdd aer mewn perthynas â dyletswyddau gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol o dan y Ddeddf. Ni chytunwyd ar y cyllid hwn eto.

### Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

Mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cyflwyno diwygiadau enfawr i strwythur a system etholiadol Senedd Cymru, gan gynyddu nifer yr Aelodau o 60 i 96 a lleihau'r cyfnod rhwng etholiadau i bedair blynedd. Mae'n caniatáu dau Ddirprwy Lywydd, yn ehangu maint Llywodraeth Cymru, ac yn gosod gofynion preswylio ar gyfer ymgeiswyr. Mae'r Ddeddf yn mabwysiadu system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig gan ddefnyddio fformiwla D'Hondt, ac yn rhoi'r gwaith o reoli etholaethau'r Senedd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i ddefnyddio ei enw newydd. Mae hefyd yn caniatáu rhannu swyddi ac yn ei gwneud yn ofynnol adolygu'r newidiadau ar ôl 2026, gyda'r nod o wella cynrychiolaeth, tegwch, a chapasiti'r Senedd i wasanaethu Cymru.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Mae'r gwaith o greu'r gofod newydd sydd ei angen o dan brosiect Diwygio'r Senedd yn dal i fynd rhagddo. Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, byddwn mewn sefyllfa well i gadarnhau'r costau ar gyfer yr elfen hon o'r RIA.

### Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru i oruchwylio'r gwaith o asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni glo a thomenni eraill nas defnyddir, gyda'r nod o leihau'r risg o dirlithriadau a diogelu'r cyhoedd. Disgwylir i'r Awdurdod fod yn weithredol erbyn 2027, a bydd ganddo'r pŵer i archwilio safleoedd, ei gwneud yn ofynnol i dirfeddianwyr ddilyn camau diogelu, ac ymgymryd â chamau o'r fath ei hun. Mae ganddo hefyd bwerau mynediad, rhannu gwybodaeth, a gorfodi, gan gynnwys creu troseddau cysylltiedig. Mae'r mesurau hyn yn disodli hen ddeddfwriaeth ac yn rhan o raglen ehangach i ddiogelu tomenni glo.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Cyfanswm amcangyfrif yr RIA o gostau gweithredu'r Bil yw £5.1m, ac mae hyn wedi'i neilltuo'n llawn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 yn BEL 2232. Mae ymarferion yn mynd rhagddynt i ddarogan yr union gostau, ond rydym yn disgwyl i'r gwariant fod yn unol â'r costau a broffiliwyd yn yr RIA.

### Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn sefydlu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y fframwaith arweiniol ar gyfer cymorth a rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru i'r dyfodol, ac ar yr un pryd yn rhoi pwerau i ddiwygio deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE. Mae'n cyflwyno diwygiadau i denantiaethau amaethyddol i sicrhau mynediad teg at gymorth ariannol, yn diweddaru Deddf Coedwigaeth 1967 i gynnwys amodau amgylcheddol ar gyfer trwyddedau cwympo, ac yn gwahardd y defnydd o faglau a thrapiau glud i reoli plâu. Nod y mesurau hyn yw hyrwyddo cynaliadwyedd, diogelu'r amgylchedd, a lles anifeiliaid.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Roedd amcan-gostau'r RIA yn seiliedig ar y costau ar y pryd i ddatblygu cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy i'r dyfodol, deddfu yn ei gylch a'i sefydlu. Mae cyhoeddi'r cynllun terfynol ym mis Gorffennaf, sy'n cynnwys cyfnod pontio o 4 blynedd, y gwaith sy'n parhau â chynlluniau paratoadol, a lansio cam 1 yr haenau dewisol a chydweithredol ychwanegol, i gyd wedi'u hystyried wrth sefydlu cyllideb Cymorth Amaethyddiaeth ar gyfer BA2026-27 er mwyn cyflawni targedau LIC, drwy gymorth amrywiol i'r sector gwledig yn ôl y galw.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

### Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025

Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) etc. (Cymru) 2025 yn rhoi pŵer i brif gynghorau yng Nghymru gyflwyno ardoll ymwelwyr yn ôl eu disgresiwn ar arosiadau dros nos, ac Awdurdod Cyllid Cymru sy'n gyfrifol am ei chasglu a'i rheoli. Rhaid defnyddio refeniw'r ardoll ar gyfer gwelliannau i dwristiaeth leol, ac mae'n ofynnol i gynghorau ymgynghori â rhanddeiliaid ac adrodd yn flynyddol ar y defnydd a wneir ohono. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru pob darparwr llety ymwelwyr, gan wella trefniadau goruchwylio'r sector. Awdurdod Cyllid Cymru sydd i gynnal a chyhoeddi'r gofrestr, a rhannu data perthnasol gydag awdurdodau lleol a Gweinidogion, gan gefnogi twristiaeth gynaliadwy a chyfraniadau teg gan ymwelwyr.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Bydd y cynllun cofrestru yn sail i drwyddedu llety ymwelwyr a'r ardoll ar ymwelwyr.

Mae'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27 hefyd yn cynnwys costau cyfathrebu sy'n ymwneud â gweithredu'r rhaglen, a oedd wedi'u heithrio o'r RIA, er bod costau'r rhaglen weithredu gyfan yn dod o fewn cwmpas cyfansymiau posibl yr RIA a nodir ar gyfer y 2 flynedd, 2025-26 a 2026-27.

### Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

Mae'r Ddeddf yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy sicrhau bod pob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol erbyn diwedd eu cyfnod ysgol gorfodol. Mae'n cyflwyno tri chategori iaith statudol ar gyfer ysgolion, yn gosod gofynion penodol o ran addysg Gymraeg, ac yn alinio disgrifiadau o allu dysgwyr yn y Gymraeg â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Yn ogystal, mae'n sefydlu corff statudol, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i gefnogi pobl o bob oed i ddysgu Cymraeg o fis Awst 2027.

*Y gwahaniaeth rhwng yr RIA a'r cyllid a ddyrennir yn 2026-27:*

Mae'r swm a neilltuwyd yn y gyllideb yn is oherwydd gostyngiad yn yr amcan-gostau ar gyfer sefydlu'r Athrofa yn 2026-27.